Awdurdod Harbwr Caerdydd
Datganiad Polisi Amgylcheddol

Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn gyfrifol am reoli Morglawdd Bae Caerdydd, y dyfroedd sydd wedi eu cronni ynddo, Gwlyptir Bae Caerdydd ac Ynys Echni. Ei weledigaeth yw cynnal Bae Caerdydd fel lleoliad dŵr rhyngwladol eithriadol, gan gynnig amgylchedd ardderchog lle gall ymwelwyr a phobl leol fwynhau ystod eang o weithgareddau, chwaraeon a hamddena. Fel rhan o'r weledigaeth hon, nod Awdurdod yr Harbwr yw cynnal y safonau amgylcheddol gorau ledled Bae Caerdydd, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd a'r fioamrywiaeth.

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn:

- Rheoli gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y perygl o lygru yn cael ei reoli, ei leddfu neu ei ddileu
- Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd dirlenwi trwy fabwysiadu arferion gyda golwg ar leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu;
- Defnyddio llai o ynni yn effeithlon yn holl weithgareddau Awdurdod yr Harbwr, gostwng allyriadau carbon deuocsid a lliniaru ein heffaith ar newid yr hinsawdd fyd-eang;
- Ymrwymo i gyflawni ei ddyletswyddau cydymffurfio;
- Adolygu perfformiad er mwyn ymrwymo i wella'r System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus er mwyn gwella ein perfformiad amgylcheddol.
- Gosod amcanion amgylcheddol sydd yn gysylltiedig â'r cynllun busnes.

Bydd Awdurdod yr Harbwr yn rheoli ac yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol trwy wella ei waith monitro, ymyrryd, gwaith ymchwil a hyfforddiant, yn fewnol a thrwy ei bartneriaethau â rhanddeiliaid. Mae Awdurdod yr Harbwr yn bwriadu bod ar flaen y gad o ran rheoli'r amgylchedd, ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod y staff a'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r problemau amgylcheddol a'u bod hwythau'n cyfrannu at wella'r sefyllfa.

Rheolwr Gweithredol – Parciau, Chwaraeon a'r Harbwr